Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

MAE'R ADRODDIAD HWN HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# ADRODDIAD BLYNYDDOL IAITH GYMRAEG SCHTh 2022-2023

## Cynnwys

1. **Rhagair……………………………………………………………………………3**

2. **Cyflwyniad a Chefndir…………………………………………………………………………..4**

3. **Strategaeth Iaith Gymraeg…………………………………………………………………………4**

4. **Pethau a Gyflawnwyd…………………………………………………………….…….... 5**

5. **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ………………….…………7**

6. **Cyrsiau Cymraeg…………………………………….…..…………….. 8**

7. **Gallu Iaith Gymraeg Staff ………………..……………………..……………..9**

8. **Llunio Polisi ……………………………………………………………..……10**

9. **Anfodlonrwydd …...………………………………………………..……...……11**

10. **Lefelau'r Gymraeg………………………………………………….…….11**

## 1. Rhagair

Fy ngweledigaeth gyffredinol ar gyfer 2021-25 yw cadw cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel, gan gynnal ymddiriedaeth a hyder yn ein heddlu a'n system cyfiawnder troseddol. Fel rhan o hyn, yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu 2021-25, rwy'n cydnabod bod hyn yn golygu bod angen i wasanaethau plismona fod yn hygyrch i bob cymuned, gan gydnabod amrywiaeth a'r Gymraeg.

Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi'r Prif Gwnstabl i fuddsoddi mewn cynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg, ond rwyf hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod fy swyddfa yn mabwysiadu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus. Mae Dyfed Powys yn ardal sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac mae gennym ddyletswydd i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth dwyieithog gyda gweithlu sydd â'r sgiliau i gyfathrebu'n hyderus â'r cyhoedd.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol Iaith Gymraeg cyntaf fel Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sy'n dangos y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym wedi cyflwyno mesurau sydd â'r nod o gynyddu lefel rhuglder Cymraeg yn y swyddfa a rhoi'r hyder i staff weithio'n ddwyieithog.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Heddlu ac yn y flwyddyn nesaf bydd y Gymraeg yn rhan o Broffiliau Asesu Datblygiad staff er mwyn hwyluso ac annog ein gweithlu i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Rwy'n frwd dros gefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau er mwyn gwella gallu'r sefydliad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg, ac edrychaf ymlaen at weld gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud dros y blynyddoedd i ddod.



Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## 2. Cyflwyniad a Chefndir

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg ers 30 Mawrth 2017. Cymeradwywyd hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fe'u crëwyd er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn ystod 2022-23, mae SCHTh Dyfed-Powys wedi parhau i gofleidio defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a gyda'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'n hollbwysig bod y cyhoedd yn gallu cyrchu ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o ddydd i ddydd. Rydym yn cynorthwyo'r holl staff i sicrhau bod cymorth ar gael yn hawdd er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o safon uchel i bob cymuned yn ardal Dyfed-Powys.

Diben yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o'n cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg, sut rydym yn hwyluso defnydd o wasanaethau Cymraeg, a sut mae SCHTh yn gweithio i sicrhau y cedwir at y safonau. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan SCHTh yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 3. Strategaeth Iaith Gymraeg

Mae SCHTh a Heddlu Dyfed Powys wedi bod â dogfen Strategaeth Iaith Gymraeg ar y cyd yn y blynyddoedd diwethaf. Nod y strategaeth fu sicrhau ein bod yn datblygu gweithlu sy'n cynrychioli ein cymunedau trwy amrywiol gamau, gan osod amserlen a chynllun clir i ni fod yn atebol iddynt.

Mae dwy iaith a gydnabyddir yn gyfreithiol yng Nghymru ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein darpariaeth gwasanaeth: **Dwy Iaith – Dau Ddewis!**

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gweithio'n agos iawn gyda Heddlu Dyfed-Powys a rhennir yr holl adnoddau, cyfleoedd hyfforddi ac ati gydag SCHTh, gan sicrhau bod staff SCHTh yn cael mynediad at yr un deunyddiau a chyfleoedd â staff a swyddogion yr Heddlu.

Mae aelod o dîm SCHTh yn aelod o grŵp 'Yr Iaith ar Waith', sef Grŵp Gweithredu Iaith Gymraeg yr Heddlu. Diben y grŵp yw hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg i Heddlu Dyfed-Powys a datblygu gwaith ym maes y Gymraeg ymhellach ar lefel strategol. Mae'r fforwm yn ystyried data mewn perthynas â galwadau 101

Cymraeg a dderbyniwyd gan Ganolfan Reoli'r Heddlu, data gan Adnoddau Dynol mewn perthynas â sgiliau Cymraeg y gweithlu, ac unrhyw gwynion neu achosion o anfodlonrwydd a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'n caniatáu i SCHTh ddeall unrhyw faterion sy'n wynebu'r Heddlu ac mae'n rhan o graffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar berfformiad y Prif Gwnstabl wrth gynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg.

Penderfynwyd yn ystod 2023-2024 y bydd strategaeth yn cael ei datblygu ar gyfer SCHTh yn unig fel bod camau gweithredu ar gyfer gwella yn glir ac yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gwaith y swyddfa.

## 4. Pethau a Gyflawnwyd

**Safonau'r Gymraeg**

Mynychodd y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg a gyflogir gan yr Heddlu sesiwn ddysgu amser cinio yn 2022-2023 i siarad â'r swyddfa am Safonau'r Gymraeg a hefyd cyfleoedd Cymraeg yn gyffredinol. Roedd y sgyrsiau yn y sesiwn hon yn gatalydd ar gyfer cyfleoedd pellach i ymgorffori ac ymgysylltu â'r Gymraeg.

**Clwb Clecs**

Yn ystod 2022-23, cafwyd trafodaethau ynghylch pa gymorth y gellid ei roi i staff i'w cynorthwyo i wella eu sgiliau Cymraeg. Trefnwyd sesiynau misol o'r enw "Clwb Clecs" yn ystod y flwyddyn lle byddai pobl yn dod at ei gilydd a chael trafodaethau yn Gymraeg. Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar gynorthwyo unigolion i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg bob dydd i helpu i wella eu sgiliau a'u hyder.

**Cyfaill Cymraeg**

Yn ogystal â Chlwb Clecs, mae rhai swyddogion wedi ymgysylltu â chydweithwyr o fewn y swyddfa fel eu cyfeillion Cymraeg ac yn sgwrsio â nhw yn Gymraeg i wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder i siarad Cymraeg. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y Gymraeg a siaredir yn amgylchedd y swyddfa.

**Cyfarfodydd Bwrdd Plismona**

Mae'r Comisiynydd yn cynnal cyfarfodydd Bwrdd Plismona bob pythefnos, sef cyfarfodydd lle mae'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona ar draws Dyfed Powys. Yn ystod 2022-2023, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd y Bwrdd Plismona trwy gyfrwng y Gymraeg. Cytunwyd ar hyn gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, sydd ill dau'n eiriolwyr cryf dros y Gymraeg.

**Recriwtio**

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod mai'r ffordd fwyaf effeithlon o wella gallu dwyieithog y sefydliad yw recriwtio staff sydd â meistrolaeth dda ar y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf ac sy'n meddu ar sgiliau angenrheidiol eraill sy'n gymesur â'r rôl. Mae SCHTh yn monitro sgiliau staff yn flynyddol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i rym ar 22 Mawrth 2016. Mae'r prif ddyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn mynnu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylid ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

O Ebrill 2019, y gofyniad mynediad Cymraeg ar gyfer yr holl staff yw gallu sgwrsio i safon Lefel 1, sef cyfarchiad Cymraeg sylfaenol. Cefnogir staff presennol nad oes ganddynt unrhyw allu yn y Gymraeg i gyrraedd Lefel 1 yn y Gymraeg.

Yn ystod 2022/2023, hysbysebwyd tair swydd a oedd yn gofyn am lefel uwch o allu yn y Gymraeg. Yn gyntaf, hysbysebwyd y Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda gofyniad am sgiliau Cymraeg Lefel 5, sef cyflawn a chywir. Roedd y ddwy swydd arall ar gyfer lleoliadau myfyrwyr ac roedd angen i'w sgiliau Cymraeg fod ar Lefel 4, sef ffurfiol/sgyrsiol.

Tra hysbysebwyd swyddi eraill yn yr un cyfnod ar y gofyniad Lefel 1, penodwyd unigolion oedd â lefel uwch o sgiliau Cymraeg.

Ceir rhagor o wybodaeth am allu staff yn y Gymraeg yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Digwyddiadau: Eisteddfod Genedlaethol Tregaron**

Yn ystod haf 2022, bu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron a gwnaethom rannu gofod stondin gyda Heddlu Dyfed-Powys. Roedd yr Eisteddfod yn gyfle allweddol i ni ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, a siaradwyr Cymraeg yn arbennig, i hyrwyddo gwaith y swyddfa, ac i roi cyfle iddynt godi unrhyw faterion yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarparwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod yr wythnos, fe wnaethom drefnu digwyddiad gyda Heddlu Dyfed-Powys a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyhoeddi mai'r derbyniad newydd o swyddogion dan hyfforddiant sy'n dechrau ar eu hyfforddiant drwy'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona (PEQF) ym mis Medi 2022 fydd y gyfran gyntaf i allu ymgymryd â chymaint o'u taith fel myfyriwr trwy gyfrwng y Gymraeg ag sy'n bosibl, os dymunant wneud hynny.

Trwy gydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol De Cymru, mae'r Heddlu wedi gallu cynyddu'r cyfleoedd i recriwtiaid newydd sy'n siarad Cymraeg ymgymryd â chymaint o'r hyfforddiant â phosibl yn Gymraeg.

**Cyfathrebu**

Mae ein holl gyfathrebiadau i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ein holl bostiadau cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a bwletinau misol, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

## 5. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Dros gyfnod o dri mis yn gynnar yn 2022, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wiriadau gwirio ar wasanaethau Cymraeg SCHTh. Roedd canlyniadau'r monitro a chydymffurfedd yn gadarnhaol iawn a symudodd SCHTh y camau gweithredu yn eu blaen yn ystod 2022/2023.

Yn dilyn y gwiriadau, gwnaeth Swyddog Comisiynydd y Gymraeg dri phrif ganfyddiad y mae angen i'r swyddfa roi sylw iddynt:

1. Nid yw trefn gwyno SCHTh yn cyfeirio at gwynion sy'n ymwneud â'r safonau ac at y categorïau safonau, nad yw'n cydymffurfio â safonau 153 a 159 – mae hyn wedi'i ddatrys ac mae'r drefn gwyno ar y wefan yn cyfeirio at hyn.

2. Mae safonau 155, 161 ac 167 yn ei gwneud yn ofynnol i SCHTh gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â sut y gwnaethoch gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau polisi a safonau gweithredu. Yn ein holiadur safonau atodol ar y pryd, fe wnaethom gyfeirio at adroddiad blynyddol Heddlu Dyfed-Powys, ond mae'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i SCHTh gynhyrchu ei hadroddiad ei hun sy'n annibynnol ar adroddiad Heddlu Dyfed-Powys. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae adroddiad ar y cyd wedi'i dderbyn, ond yn y dyfodol bydd SCHTh yn creu ei hadroddiad ei hun a hwn fydd yr adroddiad cyntaf.

3. Nid oedd gan ddogfennau ar y wefan nodyn ar y fersiwn Saesneg i ddweud bod fersiynau Cymraeg hefyd ar gael, fel sy’n ofynnol o dan Safon 47 – Mae pob Dogfen Saesneg hanesyddol wedi'i diwygio i ddangos eu bod ar gael yn Gymraeg. Byddant yn cael eu huwchlwytho i'r wefan newydd sydd i fod i gael ei rhyddhau yn gynnar yn 2024.

## 6. Cyrsiau Cymraeg

Anogir staff o fewn SCHTh i ddilyn unrhyw gyrsiau Cymraeg y teimlir eu bod yn berthnasol ac yn briodol. Mae gan y staff fynediad i'r un cwrs sydd ar gael i swyddogion a staff yr heddlu ac maent yn amrywio o ran cymhlethdod yn dibynnu ar lefel y gofyniad.

Gyda chyflwyniad Clwb Clecs a'r fenter gyfeillio, nid oedd unrhyw hyfforddiant penodol yn ystod y flwyddyn ond mae cyrsiau wedi'u harchebu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## 7. Gallu Iaith Gymraeg Staff

Mae'n bwysig i weithlu SCHTh gynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Fel swyddfa, rydym yn falch o'n Cymreictod ac yn dymuno annog staff i gefnogi ein holl breswylwyr drwy ymgysylltu â nhw yn Gymraeg pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Credwn ei bod yn hynod bwysig i'n staff allu dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol i'n preswylwyr ac i'n gilydd. Er mwyn sicrhau hyn, mae SCHTh wedi ymrwymo i gael gweithlu sydd i gyd yn gallu sgwrsio yn Gymraeg ar Lefel 1 o leiaf.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, o fis Ebrill 2019 mae pob proffil rôl newydd ar gyfer staff yn nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i Lefel 1 neu fod yn barod i gyflawni hyn o fewn chwe mis i'w benodi.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/2023, cofnodwyd y lefelau canlynol o sgiliau llafar Cymraeg a sgiliau ysgrifenedig.

| **Sgiliau Llafar Cymraeg** | |
|---|---|
| Lefel 0 | 1 |
| Lefel 1 | 2 |
| Lefel 2 | 4 |
| Lefel 3 | 4 |
| Lefel 4 | 3 |
| Lefel 5 | 6 |
| **Sgiliau Ysgrifenedig Cymraeg** | |
| Lefel 0 | 1 |
| Lefel 1 | 2 |
| Lefel 2 | 4 |
| Lefel 3 | 5 |
| Lefel 4 | 2 |
| Lefel 5 | 6 |

## 8. Llunio Polisi

**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae gan SCHTh gyfrifoldeb i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw bolisi, gweithdrefn neu weithgaredd y mae SCHTh yn ymgymryd ag ef i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac nad yw'n cael effaith andwyol neu negyddol ar unrhyw grwpiau penodol o bobl a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan asesu'r effaith y gallai ei chael ar unigolyn.

Mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn yr asesiad hwn er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried bob amser.  Mae'r cwestiwn yn gofyn:
*'Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae angen rhoi'r ystyriaethau a ganlyn hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg:*

*Dangoswch sut yr ydych wedi ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar y canlynol -*

*(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

*Dangoswch sut yr ydych wedi ystyried sut na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai wedi lleihau effeithiau andwyol, ar y canlynol —*
*(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Pryd bynnag y bydd SCHTh yn cynnal darn o waith annibynnol, rydym hefyd yn sicrhau bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal. Mae enghreifftiau o asesiadau effaith blaenorol yn cynnwys:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Praesept y Dreth Gyngor
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Ymgynghori ar y Cynllun Heddlu a Throseddu
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Cynllun Heddlu a Throseddu

Mae'r rhain i gyd wedi'u cyhoeddi ac ar gael i'w gweld ar ein gwefan.

## 9. Anfodlonrwydd

Ni dderbyniodd SCHTh unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## 10. Lefelau Cymraeg

| Rhai ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn SCHTh | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mewn swyddfa** | Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau / lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg. | Yn gallu deall hanfod sgwrs yn Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol, e.e. gweinyddol syml neu dasgau arferol. | Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu cymryd a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw yn ystod diwrnod gwaith arferol. | Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn eich maes gwaith eich hun a dadlau o blaid neu yn erbyn achos. | Yn gallu cyfweld ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg am swyddi ac asesu eu haddasrwydd. |
| **Cyfarfodydd cyhoeddus / siarad â'r cyfryngau** | Yn gallu agor a chau cyfarfodydd a chroesawu cyfranogwyr yn ddwyieithog. | Yn gallu cyflwyno eich hun ac eraill yn ôl enw, rheng, rôl, a lleoliad/sefydliad. Yn gallu cyfrannu mewn cyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. | Yn gallu sgwrsio neu gyflwyno'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, ateb cwestiynau, neu ddefnyddio gwybodaeth gymhleth. | Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg, ond yn troi i'r Saesneg am dermau technegol neu blismona. | Yn gallu darparu cyflwyniadau Cymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu elyniaethus yn Gymraeg i'r graddau bod ganddo/ganddi'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgrifennu** | Yn gallu ysgrifennu cais arferol syml at gydweithiwr, megis 'A gaf i … os gwelwch yn dda?' | Yn gallu ysgrifennu nodyn cais byr at gydweithiwr neu gyswllt allanol hysbys. | Yn gallu ysgrifennu memos mewnol anffurfiol, anfon negeseuon e-bost ac ymdrin â cheisiadau arferol. | Gyda chymorth golygyddol, yn gallu ysgrifennu llythyrau busnes, negeseuon e-bost a phosteri ar gyfer cwsmeriaid allanol. | Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a gwneud nodiadau llawn a chywir mewn cyfarfod. |

**Gwybodaeth Bellach**

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg, anfonwch e-bost at opcc@dyfed-powys.police.uk